# Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r polisi hwn yn esbonio sut y defnyddir yr wybodaeth a gasglwn amdanoch a'ch hawliau yng nghyswllt yr wybodaeth honno.

Mae gofyniad cyfreithiol am yr wybodaeth bersonol a gesglir gennych er mwyn cofrestru digwyddiad. Y brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu casglu gwybodaeth cofrestru yw Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953, Deddf Priodasau 1949 a Deddf Partneriaethau Sifil 2004. Gall y deddfau hyn, a darnau eraill o ddeddfwriaeth, osod gofyniad cyfreithiol arnoch i ddarparu darnau neilltuol o wybodaeth. Os ydych yn methu darparu'r wybodaeth mae'n ofynnol arnoch ei rhoi i ni gallwch, ymysg pethau eraill, fod yn atebol am ddirwy, neu gallem fethu darparu'r gwasanaeth yr ydych yn gwneud cais amdano, megis priodas neu bartneriaeth sifil.

Gellir hefyd gasglu gwybodaeth bersonol gennych os ydych yn gwneud cais i'r swyddfa hon, er enghraifft ar gyfer tystysgrif neu i gywiro gwybodaeth a gynhwysir mewn cofnod cofrestr.

Caiff yr wybodaeth a roddwch ei dal a'i phrosesu gan swyddogion cofrestru ar gyfer yr ardal gofrestru yma.

Mae'r Cofrestrydd Goruchwylio yn rheolydd data ar gyfer Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau. Gellir cysylltu â'r Cofrestrydd yn Y Swyddfa Gofrestru, Tŷ Bedwellte, Stryd Morgan, Tredegar, Blaenau Gwent NP22 3XN **elaine.williams@blaenau-gwent.gov.uk.**

Mae'r awdurdod lleol yn rheolydd data ar gyfer cofrestru partneriaethau sifil ar cyfeiriad cyswllt yw'r Swyddfeydd Bwrdeisiol, Canolfan Ddinesig, Glynebwy, Blaenau Gwent NP23 6XB.

Mae Cofrestrydd Cyffredinol Lloegr Cymru yn gyd reolydd data ar gyfer cofrestru genedigaethau, priodasau, marwolaethau a phartneriaethau sifil. Y cyfeiriad cyswllt yw'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, Trafalgar Road, Southport, PR8 2HH.

Y Swyddog Diogelu Data a Swyddog Llywodraethiant yw Paul Amos a gellir cysylltu ag ef yn y Swyddfeydd Bwrdeisiol, Y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy, Blaenau Gwent NP23 6XB **paul.amos@blaenau-gwent.gov.uk.**

Caiff copi o unrhyw gofnod cofrestr ei darparu gan y swyddfa hon i unrhyw ymgeisydd yn unol â'r gyfraith, cyn belled â'u bod yn rhoi digon o wybodaeth i ddynodi'r gofnod dan sylw a thalu'r ffi priodol. Dim ond ar ffurf copi papur ardystiedig ("tystysgrif") y gellir cyhoeddi'r copi. Gellir hefyd wneud cais am dystysgrif i'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol.

Mae mynegeion ar gyfer digwyddiadau a gofrestrwyd yn y swyddfa hon ar gael i'r cyhoedd er mwyn helpu aelodau o'r cyhoedd i ddynodi'r cofnod cofrestru y gallent fod ei hangen. Mae mynegeion ar gael am ffi chwilio a godwyd yn ôl cais personol.

Anfonir copi o'r wybodaeth a gesglir gan swyddog cofrestru hefyd i Gofrestrydd Cyffredinol Lloegr a Chymru fel y gellir cadw cofnod ganolog o bob cofrestriad.

Gall gwybodaeth cofrestru a ddelir yn y swyddfa hon gael ei rhannu gyda sefydliadau eraill i weithredu ein swyddogaethau, neu i alluogi eraill i gyflawni eu swyddogaethau.

Dim ond lle mae sail gyfreithiol dros wneud hynny am y rhesymau dilynol y byddwn yn rhannu gwybodaeth:

1. Dibenion ystadegol neu ymchwil,
2. Dibenion gweinyddol gan gyrff cyhoeddus e.e. sicrhau bod eu cofnodion yn gyfredol er mwyn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd,
3. Atal neu ddarganfod twyll, dibenion mewnfudo a phasbort,

Gellir cael gwybodaeth bellach ar ddata a ddelir gan y gwasanaeth cofrestru a rhestr lawn o'r sefydliadau y rhennir data cofrestru gyda nhw, y diben a'r sail gyfreithiol dros rannu'r data ar Wasanaeth Cofrestru Blaenau Gwent - **Sut y rhannwn eich data personol.** Yn lle hynny, gallai staff yn y swyddfa hon ddarparu'r wybodaeth. (Atodiad A) (link to Annex A)

Mae gennych hawl i ofyn am fynediad i'r wybodaeth bersonol a ddaliwn amdanoch, i gael eich hysbysu am gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol, am i wybodaeth anghywir gael ei chywiro (lle mae'r gyfraith yn caniatáu) ac i ofyn i ni gyfyngu prosesu eich gwybodaeth bersonol. Mewn rhai amgylchiadau mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol. Ni fydd eich gwybodaeth yn derbyn gwneud penderfyniadau awtomatig.

Caiff gwybodaeth cofrestru ei chadw am gyfnod amhenodol yn ôl y gofyniad cyfreithiol.

Mae rhestr lawn o'r isafswm cyfnod ar gyfer cadw dogfennau swyddogol ar gael yn Adran y Cofrestrydd ar Wefan Blaenau Gwent dan - Pa mor hir allwn ni gadw eich data - (Add Appendix 12 link)

Canllawiau Gwaredu Cyffredinol ar gyfer **Rheoli Cofnodion Awdurdodau Lleol:**

| **Disgrifiad swyddogaeth** | **Enghreifftiau Cofnodion a Nodiadau (Cofrestryddion) Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau** | **Gweithredu Cadw (Parhaol)** | **Seremonïau Priodas** | **Hysbysiadau** |
|---|---|---|---|---|
| Proses crynodeb cofrestru genedigaeth, marwolaeth neu briodas | Priodas ardystio cofrestru genedigaeth, marwolaeth neu briodas.<br>Dinistrio **7** mlynedd ar ôl y weithred olaf<br>• Tystysgrif geni<br>• Tystysgrif marwolaeth<br>• Tystysgrif priodas | Trosglwyddo i Fan Adnau ar ôl i ddefnydd gweinyddol ddod i ben; -<br>• Cofrestr Marwolaeth<br>• Cofrestr Genedigaeth<br>• Cofrestr Priodas | Proses cynnal seremoni priodas<br>Dinistrio **3** blynedd ar ôl y weithred ddiwethaf | Proses hysbysiad yng nghyswllt priodas<br>Dinistrio **2** flynedd ar ôl y weithred ddiwethaf<br>• Cyhoeddiadau priodas<br>• Hysbysiad priodas |

**Gwybodaeth cyswllt rhanddeiliaid:** Crwner / Ysbyty / Meddygfa Deuluol / Bydwraig / Cyfarwyddwr Angladdau / Clerigwyr / Person gydag Awdurdodiad - defnyddir ar gyfer cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau / Prosesau Copi Chwarterol - Diweddarir yn flynyddol a'u dileu yn unol â hynny.

**Llyfr Post -** System i gofnodi post mewnol ac allanol - 2 flynedd

**Tystysgrif a gollwyd neu ar goll yn y post** log - 2 flynedd

**Ffeil staff -** Defnyddir i gofnodi absenoldeb salwch, amser yn lle / gwybodaeth gyrwyr - diweddarir yn flynyddol, dileeir yn unol â hynny

**Llyfr damweiniau -** Defnyddir i gofnodi gwybodaeth am ddamweiniau sy'n digwydd o fewn y maes gwasanaeth - 2 flynedd ar ôl adrodd y digwyddiad.
Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am gasglu, defnydd neu ddatgelu eich gwybodaeth bersonol cysylltwch â Mr Paul Amos, Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant yn yr Adeiladau Bwrdeisiol, Canolfan Ddinesig, Glynebwy, Blaenau Gwent NP23 6XR os gwelwch yn dda.

Mae gennych hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y ffordd yr ydym yn trin eich gwybodaeth bersonol. Mae manylion sut y gallwch wneud hyn ar gael yn https://ico.org.uk/